| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 21, Mehefin, 2012. |
| Pwnc | Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau. |
| Awdur | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau sef :-

    - 5 aelod annibynnol (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol).
    - 1 aelod pwyllgor cymunedol sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd).
    - 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Yn unol â'r drefn a gytunwyd gan y Cyngor ar y 1, Mawrth, 2012 hysbysebwyd dwy sedd wag ar gyfer aelod annibynnol yn y wasg a chafwyd tri ymateb gan bersonau oedd yn cwrdd â'r meini prawf ac yn gymwys i'w penodi. Sefydlwyd panel ymgynghorol i ystyried y ceisiadau a chyfweld yr ymgeiswyr. Bydd y panel yn cyfarfod ar y 19eg o Fehefin a chyflwynir ei argymhelliad i'r Cyngor.

3. Ysgrifennwyd at holl aelodau'r Cyngor yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a bydd enwau y rhai sydd â diddordeb yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Busnes i'w ystyried ar y 19eg o Fehefin. Cyflwynir argymhelliad y Grŵp Busnes i'r Cyngor yn y cyfarfod.

4. Daeth y tymor yr aelod Pwyllgor Cymunedol i ben gyda'r etholiadau ym mis Mai, ond mae'r unigolyn dan sylw, sef Ashley Michael David Clay yn gymwys i'w ail benodi. Ymgynghorwyd ar y bwriad gyda'r cynghorau cymuned drwy Unllais Cymru a chafwyd cymeradwyaeth i'r ail benodiad. Oherwydd ei gyfraniad i'r Pwyllgor, y profiad sydd ganddo o'r gwaith, a'r ffaith y bydd hanner aelodau'r Pwyllgor yn aelodau newydd, argymhellir fod y Cyngor yn ail benodi David Clay am dymor pellach.

5. Mae'r rheoliadau yn nodi fod tymor Cynghorwyr ar y Pwyllgor i fod naill ai yn bedair blynedd neu hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf, pa un bynnag fo byrraf. Oherwydd fod dyddiad yr etholiad nesaf wedi ei ohirio tan 2017 mae cais wedi ei anfon i Lywodraeth Cymru i newid y rheoliadau i ganiatáu i'r aelodau wasanaethau am y cyfan o dymor y Cyngor hwn.

6. **ARGYMHELLIAD.**

a) Penodi dau aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn unol ag argymhelliad y Panel Ymgynghorol, i wasanaethau am gyfnod o 6 mlynedd.

b) Penodi tri chynghorydd i'r Pwyllgor Safonau yn unol ag argymhelliad y Grŵp Busnes i wasanaethau am dymor y Cyngor os bydd y rheoliadau yn caniatáu hynny.

c) Ail benodi David Clay ar y Pwyllgor Safonau, i wasanaethu am dymor y Cyngor os bydd y rheoliadau yn caniatáu hynny.